

y dinesydd

www.dinesydd.com

Gorffennaf 2009

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Rhif 339

Pencampwyr Cenedlaethol Cwis Llyfrau



Llongyfarchiadau gwresog i dîm Cwis Llyfrau B16 Ysgol y Wern a gyraeddodd y brig yn y Rownd Derfynol a gafodd ei chynnal yn Aberystwyth ar y 15fed o Fehefin. Fe wnaeth y plant fwynhau'r profiad o gyflwyno *Matilda* a thrafod y llyfr *Bowncio* gan Emily Huws. Aelodau'r tîm buddugol oedd Megan Hughes, Millie Merrifield, Catrin Thomas, Mari Jones, Shanna Deeben, Holly Evans, Lois Gatehouse a Sioned Donovan. Da iawn chi am eich holl waith caled.

Tafwyl yn denu'r Miloedd

Roedd Tafwyl, gŵyl haf Menter Caerdydd yn llwyddiant ysgubol eto eleni. Roedd y Ffair ar y dydd Sadwrn cyntaf yn fwrwm o hwyl a thros yr wythnos cynhaliwyd 15 o weithgareddau gwahanol.



Clwb Rygbi Cymry Caerdydd – Enillwyr Cystadleuaeth Rygbi Touch Tafwyl

Dathlu 125 Mlynedd yn Minnie Street



Y Parch Huw Ethall yn torri'r gacen i ddathlu 125 penblwydd yr Eglwys (Rhagor ar dudalen 8)

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y DINESYDD

Dydd Llun, 6 Gorffennaf
yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina,
am 7.00pm.
Croeso i bawb sydd am sicrhau dyfodol y papur.
Danfonwch e-bost at y Cadeirydd os allwch
gynorthwyo mewn unrhyw ffordd.



Cynulleidfa fawr yn mwynhau Rachael a Gareth o CYW!

Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:

Nona Gruffudd-Evans

Golygydd y rhifyn nesaf:

Bryan James

Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn

Medi 2009

erbyn 10 Awst at:

Bryan James,

52 Highfields, Llandaf,

Caerdydd CF5 2QB

e-bost: db.james@ntlworld.com

ffôn: 029 20566731

neu at Gadeirydd Pwyllgor

Y Dinesydd:

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd., Sain

Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP

(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk

ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr

Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ

(JamesEW@caerdydd.ac.uk;

029-2062-8754)

Hysbysebion

Menter Caerdydd, Tŷ Avocet,

88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,

Caerdydd CF14 2FG

(hysbysebu@dinesydd.com;

029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,

Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU

(ceri33@bopenworld.com;

07774-816-209)

Cyhoeddir Y Dinesydd gan

Bwyllgor Y Dinesydd.

Fe'i cysodir gan Penri Williams

a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

Ysgol breifat yn hybu'r Gymraeg


Gŵyr unrhywun sy'n cefnogi Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd fod merched Ysgol Howell ymysg y cystadleuwyr mwyaf brwd bob blwyddyn ac yn cael tipyn o lwyddiant yn y cystadlaethau i ddysgwyr ymhob adran.

Ysgol breifat yw hon ac mae'r pwyslais a roddir yno ar y Gymraeg yn annisgwyl. Prin iawn yw'r ysgolion preifat sy'n cefnogi ac yn hybu'r iaith ac nid llawer ohonynt sydd â changen fywiog o'r Urdd chwaith. Oes yna ysgol breifat arall yng Nghaerdydd a'r Fro yn cefnogi Eisteddfod yr Urdd yn y cystadlaethau i ddysgwyr?

Yn y dosbarth meithrin, yn dair blwydd oed, mae'r plant yn dechrau dysgu Cymraeg, ac yn dal i wneud hynny drwy'r ysgol gynradd. Yn amlwg maen nhw'n cael tipyn o hwyl arni oherwydd yn yr ysgol uwchradd pan gânt ddeuws os ydyn nhw am barhau gyda'r Gymraeg neu beidio mae nifer sylweddol yn gwneud hynny. Heblaw'r rhai sy'n mynd ymlaen i astudio Cymraeg yn y colegau, mae yna gydnabyddiaeth bod gallu siarad Cymraeg yn gaffaeliad wrth chwilio am waith.

Teimla sawl un sy'n gyfarwydd â'r ysgol fod y twf yn yr ymwybyddiaeth o Gymreictod, y diddordeb yn yr iaith a'r bwrlwm sydd mor amlwg yng Nghaerdydd yn cael ei adlewyrchu yn Ysgol Howell ac mae hynny yn sicr yn galonogol iawn.

Rhiannon Gregory



Cofio Tomos

Cyhoeddir y mis hwn gan Wasg y Lolfa y gyfrol *Cofio Tomos*, sef cyfrol er cof am Tomos Befan Owen, brodor o Gaerdydd a fu farw ar 4 Ionawr 2009, wedi iddo ddiodeff o'r clefyd leukaemia am ddwy flynedd a hanner.

Rhennir y gyfrol yn dair rhan, sef detholiad o'r teyrngedau a'r negeseuon a gyflwynwyd er cof amdano, gan ganolbwyntio ar yr ymateb i'w waith fel cynhyrchydd chwaraeon gyda'r BBC am ddeng mlynedd; casgliad o ffotograffau sy'n darlunio gwahanol gyfnodau o'i fywyd; a detholiad o'i ysgrifau, y rhan fwyaf ohonynt wedi eu hysgrifennu yn ystod cyfnod ei waeledd. Maent yn cynnwys y sylwadau craff yn ei golofn wythnosol *Wythnos Gron*, ar wefan BBC Cymru'r Byd, o Fawrth tan Ragfyr 2008, sydd yn crynhoi prif ddiwyddiadau'r cyfnod hwnnw yn y byd chwaraeon yng Nghymru.

Trosrwyddir cyfran o'r gost (£9.95), ac unrhyw elw o'r gwerthiant i Gronfa Tomos Owen Leukaemia Fund, gan hyderu y bydd ymchwil pellach o gymorth yn y dyfodol i gleifion leukaemia.

Y mae copïau o'r gyfrol ar gael mewn siopau lleol, neu yn uniongyrchol oddi wrth Hywel Owen (ffôn 07910 239624 neu e-bost hywel.owen@yahoo.co.uk)

Dawnsio i Gefnogi'r Organ

Ar 4 Gorffennaf o 12.30 hyd 1.30, bydd Dawswyr Bro Taf yn cynnal gweithdy ar arddangosfa dawns yn Ffestri Capel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd. Mae'r tîm o 20 o ddawnsywyr ifanc medrus, dan arweiniad y cyfarwyddwr enwog, Cliff Jones ac Eirlys Britton, yn rhoi gwedd newydd a chyfoes ar ddawnsio gwerin. Maent wedi profi llwyddiant eithriadol yn ddiweddar gan gipio'r brif wobwr i

blant yn y 13eg Gwyl Ddawns Werin Byd-eang a gynhaliwyd yn Palma, Majorca ym mis Ebrill eleni. Bydd yr elw o'r gweithdy/arddangosfa yn mynd tuag at apêl Eglwys y Tabernacl i godi £100,000 ar gyfer atgyweirio'r organ.

Os byd hi'n braf, bwriedir gorffen y gweithdy/cyngerdd gan berfformio yn yr awyr agored yng nghwrt blaen y capel, sy'n wynebu yr adeiladwaith newydd ar ganolfan siopa Dewi Sant 2. Bydd hyn yn rhoi siawns i siopwyr Caerdydd hefyd gael blas ar eu medrau. Mae tocynnau ar gael gan Jean Evans, neu drwy aelodau eraill y capel, ar gost o £3, a bydd y dawnsywyr yn rhoi eu gwasanaeth am ddim er mwyn hybu cronfa'r organ.

Aled Wyn Davies

BSc(Hons) BArch ARB RIBA



Pensaer

Dylunio cyfoes, cynaliadwy. Cynlluniau sydd yn ymateb i hinsawdd, diwylliant a chyd-destun

Cysylltwch â ni i dratod syniadau


21 Davies Place, Caerdydd CF5 3AQ

t: 07815 293 424

e: aled@craidd.com

g: www.craidd.com

Cydnabyddir cefnogaeth



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CLWB Y DIWC

Mae bron i flwyddyn bellach ers bwrlwm yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd, ond mewn rhan o'r brifddinas mae'r gweithgarwch codi arian a'r cymdeithasu wedi parhau.

Penderfynodd aelodau Pwyllgor Apêl Treganna a'r cylch barhau i gynnal gweithgareddau yn fisol ac ers mis Medi 2008 mae Clwb y Diwc wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Bob trydedd nos Wener o'r mis mae Clwb y Diwc wedi bod yn cynnal nosweithiau cymdeithasol Cymraeg yn nhafarn y Duke of Clarence ar Clive Road yn Nhreganna, gyda chydweithrediad a chymorth parod y rheolwyr, Eric a Linda. Mae'r nosweithiau wedi amrywio o gigs gan Gwyneth Glyn, Elin Fflur, Geraint Lovgreen a Catsgam, i nosweithiau gyda beirdd, cwisiau, a chinio Nadolig gydag adloniant gan Fechgyn Bro Taf. Mae'r nosweithiau wedi denu ystod eang o gefnogwyr o bob cenhedlaeth ac wedi esgor ar ddigwyddiadau cymdeithasol pellach yn y Duke of Clarence. Ond nid i oedolion yn unig mae Clwb y Diwc. Cynhaliwyd dau ddisgo llwyddiannus iawn i aelodau Clwb Bach y Diwc, i blant dan 10 oed.

Eisoes mae trefniadau ar y gweill ar gyfer y tymor nesaf gyda rhestr hir o artistiaid yn awchu i berfformio yng Nghlwb y Diwc - gan gynnwys Brigyn, Steve Eaves a Ryland Teifi. Mae noson gomedi yn cael ei threfnu ac mae'n sicr y bydd na ambell i gwis yn y dyfodol hefyd dan law cwis feistri medrus fel Gareth Roberts, Keith Bach, Aled Wyn a Glyn Roberts, Bowen a Teifi.

Creu cyfle i gymdeithasu yn y Gymraeg yn Nhreganna yw prif nod Clwb y Diwc, ond rydym hefyd wedi llwyddo i godi ychydig o arian yn ystod y flwyddyn. Mae cyfraniadau hael eisoes wedi'u gwneud i gronfeydd y *Dinesydd*, Apêl Cadi a Chymdeithas Rien Ysgol Treganna, ac rydym nawr yn awyddus i helpu cymdeithasau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ardal Treganna. Ychydig gannoedd o bunnoedd sydd yn y gronfa ac fe hoffem wahodd grwpiau a chymdeithasau gwirfoddol i wneud cais am gyfraniad i helpu gyda'u gwaith. Y prif faen prawf yw bod rhaid i'r arian gael ei wario yn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg. Fe fydd panel annibynnol yn dyfarnu'r grantiau yn ystod mis Medi. Anfonwch lythyr yn amlinellu sut byddwch yn gwario'r arian at Panel Apêl Clwb y Diwc, 17 Bernard Avenue, Parc Victoria, Caerdydd CF5 1BT erbyn Medi 1af 2009.

Ysgol y Wern



Charlie Lovell-Jones

Llongyfarchiadau i'r timoedd Dawnsio Gwerin, Dawnsio Disgo a Dawnsio Cyfrwng Cymysg a fu'n dawnsio yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd. Llongyfarchiadau arbennig i Gerddorfa'r Ysgol a ddaeth yn ail. Wyneb cyfarwydd iawn yn ystod yr wythnos oedd Charlie Lovell-Jones, disgybl ym Mlwyddyn 5. Ar y Dydd Llun agoriadol enillodd y wobwr gyntaf ar yr Unawd Piano a daeth i'r brig eto ar y Dydd Mawrth ar yr Unawd Llinynnol. Yn wir, cafodd ei enwi yn seren y dydd gan Alwyn Humphries ar S4C ar y Dydd Mawrth. Da iawn ti Charlie.

Llongyfarchiadau i Owain Carbis B13 a ddaeth yn drydydd yn y gystadleuaeth Graffeg Gyfrifiadurol.

Mae Blwyddyn 4 wedi cael tymor prysur iawn yn gweithio gydag arlunydd, bardd a chyfansoddwraig. Arddangoswyd y gwaith celf yn Neuadd Dewi Sant ac yno fe wnaethant berfformio'r gân "*Rhodri the Recycling Robot*". Fe wnaeth y gyfansoddwraig Helen Woods ddychwelyd eto i'r Ysgol i ddysgu cân groeso er mwyn i'r Flwyddyn ei pherfformio o flaen cystadleuwyr Canwr y Byd. Croesawyd Eri Nakamura o Japan ac Anna Stephany o Loegr atom i ganu o flaen y plant.

Fe wnaeth y profiad ennyn diddordeb y disgyblion yn fawr yn y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i dîm Diogelwch y Ffordd B16 a ddaeth yn gydradd ail yn Rownd Derfynol y Sir ym mis Mai.

Fe fyddwn hefyd yn cynnal cyfarfod agored i drafod calendr y flwyddyn nesaf ar yr **8fed o Fedi am 8pm** yn y Duke of Clarence. Mae croeso i unrhywun ddod i gyfrannu syniadau neu i ddod yn aelod o'r pwyllgor.

Tîm Cysylltiadau Cyhoeddus yn ehangu



Hannah-Jane Davies, Lydia Jones, Stifyn Parri a Tristan Williams.

Mae Mr Producer, cwmni Rheoli Digwyddiadau ac asiantaeth Cysylltiadau Cyhoeddus o Gaerdydd yn croesawu aelod newydd i'r tîm deinamig. Mae Tristan Williams yn ymuno â Mr Producer fel Rheolwr Prosiectau wrth i bortffolio o gleientiaid Cysylltiadau Cyhoeddus y cwmni ehangu.

Dywedodd y Rheolwr-gyfarwyddwr, Stifyn Parri "Gyda chymaint o gleientiaid yn gofyn am wasanaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, dwi'n falch iawn o groesawu aelod staff newydd a phrofiadol, Tristan Williams, i'n tîm. Rwy'n falch o weld Mr Producer yn parhau i dyfu a datblygu, yn enwedig yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Mae Tristan, sy'n wreiddiol o Gricieth, yng Ngogledd Cymru ac yn gyn-fyfyriwr o Brifysgol Caerdydd, yn ymuno â Mr Producer, ac mae ganddo brofiad helaeth o reoli digwyddiadau. Mae ei swyddi blaenorol yn cynnwys Hwyl a Fflag a chwmini teithio sy'n arbenigo mewn teithiau addysgol. Mae gan Tristan hefyd brofiad helaeth o drefnu digwyddiadau a chyngherddau ym Mhrydain ac Ewrop.

Newyddion

Cydnabod gwaith clodwiw

Llongyfarchiadau i Dan Roberts, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Plasmawr, ar dderbyn gwobr am ei waith clodwiw yn llywio datblygiad yr ysgol ers y cychwyn. Derbyniodd ei wobwr mewn seremoni yn Neuadd y Ddinas ar y 9fed o Fehefin.

Llongyfarchiadau i Ieuan Wyn o'r Eglwys Newydd, sy'n aelod o Aelwyd y Waun Ddyfal, am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Tlws y Cerddor yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd eleni.

Beth am daith i Ynys Echni?

Trefnir teithiau diwrnod i'r ynys yn rheolaidd yn ystod misoedd yr haf o fae Caerdydd. Warden yr ynys yw Mathew Lipton. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Gynllun Ynys Echni 20353917.

Ysgol y Berllan Deg

Hwyllo

Mwynhaodd Bl 5 gwrs hwyllo 6 wythnos yng Nghlwb Hwyllo Llanisien yn dysgu pob math o sgiliau newydd.

Byd y Theatr

Cafodd Bl 5 a 6 gyfle i weld sioe Garddwr y Gwanwyn gan gwmni Theatr Iolo yn yr ysgol, a chyfle ar y diwedd i holi'r actorion. Yn ogystal, mwynhaodd Bl 1 sioe Rala Rwdins yn Theatr y Sherman.

Ymweliadau addysgiadol

Er gwaetha'r glaw, cafodd Bl 4 ddiwrnod i'w gofio yn y Bae yn dysgu am fyd natur a'r morglawdd. Bu Bl 6 ar drip hanesyddol i'r *Imperial War Museum* yn Llundain ac aeth Bl 2 ar drip i Sw Bryste i ddysgu am yr anifeiliaid.

Chwaraeon

Bu rhai o blant Bl 5 a 6 yn cystadlu mewn cystadleuaeth griced yn Stadiwm Swalec. Enillodd y criw un gêm a cholli dwy.

Yn ogystal, bu'r plant yn cymryd rhan mewn pob math o gemau ar ddiwrnod Lesotho ac yn casglu pwyntiau at eu timoedd Mabolgampau, ac o ganlyniad casglwyd swm anrhydeddus o £530 tuag at Ysgol St. Paul's, ButheButhe, Lesotho. Cafwyd diwrnod Mabolgampau llwyddiannus iawn, ac eleni yr enillwyr oedd Tywi. Da iawn bawb am gystadlu.

Perfformio

Bu rhai o blant Bl 1 a 2 yn canu yn ystod Ffair Tafwyl yn y Mochyn Du, ac aeth côr Bl 5 a 6 yr ysgol i berfformio yn Eglwys Highfields, tra bu'r grŵp dawnsio gwerin yn diddanu mewn cynhadledd addysg yng ngwesty'r Hilton.

Gwobr Gelfyddydol

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi fod yr ysgol wedi derbyn y 'Bronze Arts Mark'. Cafwyd gwasanaeth gwobrwyo gyda Robert Cornelius a Julie Ashfield o'r Cyngor Sir yn cyflwyno plac hyfryd i rai o ddisgyblion Bl 6. Diolch i bawb am weithio mor galed.

Ffarwél

Pob hwyl i 48 o ddisgyblion Bl 6 fydd yn cychwyn yn Ysgol Glantaf ym mis Medi. Dymuniadau gorau hefyd i rai o staff yr ysgol fydd yn ein gadael ddiwedd y tymor - Ffion Roberts (fu gyda ni ers i'r ysgol gael ei sefydlu), Caryl Lister fydd yn mynd i ddilyn cwrs i fod yn athrawes, ac i Alex Avoth, fydd yn mynd i astudio i'r coleg.

Cyfarchion

Llongyfarchiadau mawr i Louise Holmes ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar gyda Dewi. Hefyd, llongyfarchiadau gwresog i Maxine Edwards ar achlysur ei dyweddiad gyda Tim.

Treganna a'r Cynulliad

Mae'n adeg tyngedfennol i rieni a phlant Ysgol Gymraeg Treganna, gyda Chyngor Caerdydd wedi penderfynu (o'r diwedd) y dylid cau Ysgol Lansdowne a symud Ysgol Gymraeg Treganna i'w safle.

Ai dyma'r adeg felly i rieni Ysgol Treganna drefnu parti bach dathlu yn y Duke of Clarence? Go brin. Mae cefnogwyr Lansdowne eisoes wedi apelio yn erbyn y penderfyniad, a bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Weinidog Addysg y Cynulliad, Jane Hutt.

Yn ôl addysgwyr ac arbenigwyr, dylai penderfyniad y Gweinidog fod yn gymharol syml. Ar hyn o bryd, mae plant Treganna o dan anfantais addysgol oherwydd maint bychan ac adnoddau diffygiol eu hysgol. Mae Lansdowne yn chwarter wag, ac mae degau o lefydd eraill yn cael eu llenwi gan blant o'r tu allan i'r dalgylch.

Ond aelod o'r Blaid Lafur yw Gweinidog Addysg y Cynulliad, ac mae'r Blaid Lafur wedi arwain yr ymgyrch i rwystro Ysgol Gymraeg Treganna rhag ehangu ar safle Lansdowne. Pwy all anghofio geiriau ffôl y Cynghorydd Llafur lleol, Ramesh Patel, y byddai symud Treganna i Lansdowne yn ffurf ar "lanhau ethnig"?

Yn ddigon naturiol, mae rhieni Treganna yn nerfus y gallai ystyriaethau plaid ddylanwadu ar benderfyniad y Cynulliad. Byddai'n gywilydd o beth pe bai hynny'n digwydd. Bydd angen ymgyrch drefnus dros y misoedd nesaf i sicrhau na all y Cynulliad wrthod cynlluniau ad-drefnu'r Cyngor.

Simon Brooks

Hysbysebwbch yn

y dinesydd

Cylchrediad eang yn y ddinas a'r
cylch
ac ar y we

www.dinesydd.com

Ffôn: 029 20565658



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sian Couch y Mynydd Bychan ar ei dyweddiad ag Ian Golden ym mis Mai.

Llongyfarchiadau i Alice Eluned Newton o Ysgol Gyfun Glantaf ar ennill un o ysgoloriaethau Evan Morgan gwerth mil o bunnoedd y flwyddyn i astudio ym mhrifysgol Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i Simon Easterby a Sarra Elgan o Fro Morgannwg ar enedigaeth mab, Ffredi Easterby, ar y 1af o Fai yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont. Brawd bach i Soffia.

Llongyfarchiadau i Siriol Griffiths, Adamstown, gynt o Riwbina, ar ei phriodas a Mostyn Pritchard, Croes y Ceiliog, yn Efrog Newydd ar y 5ed o Fehefin.

Llongyfarchiadau i Rhodri a Catrin Llywelyn, Pontcanna, ar enedigaeth Cai Morgan Llywelyn ar y 3ydd o Fehefin. Brawd bach i Gruff ac ŵyr arall i Carol a Huw Llewelyn Davies, a Delyth a Martyn Williams.

Llongyfarchiadau i Emma a Nathan, Treganna, ar enedigaeth eu mab Ruben.

**Jonathan Richards,
MBA; BSc.(Hons.)**

**Ymgyngorydd
Ariannol Annibynnol**

Arbenigo mewn darparu cyngor ariannol diduedd yn y meysydd canlynol:

Cynilion a Buddsoddiadau
(gan gynnwys Cronfa
Ymddiriedolaeth Plant a
chynllunio ar gyfer ffioedd
ysgol/prifysgol)

**Cynllunio Ymddeoliad a
Diogelu**

(o Yswiriant Bywyd i Salwch
Difrifol, o Ailosod Cyflog i
Ddiswyddiad).

ebost: jrichards10@sky.com

Ffôn Symudol: 07957 140650

Cymdeithas Carnhuanawc

Faint wyddoch chi am y Bae?



Ym mha flwyddyn yr adeiladwyd y Gyfnewidfa Lo? Ym mhle yn y Bae y gwelech chi enw Edgar Evans? Pa ganwr enwog o Gymru roddodd goeden fel rhodd i'r ardd fach tu ôl i Siop Sglodion Harri Ramsden? Beth sydd yn llaw'r ddelw ar adeilad banc y Nat. West a ble gwelech chi lun o'r ddau John oedd ddim yn cyd-dynnu yn ystod eu hoes? (Atebion ar dudalen 7).

Dyma rai o'r cwestiynau y bu'n rhaid i griw ohonom eu datrys erbyn 8.30 nos Iau 19 o Fehefin yn yr Helfa Drysor a drefnwyd gan Keith Bush, cadeirydd

Cymdeithas Carnhuanawc fel rhan o weithgareddau Tafwyl.

Pedwar tîm oedd yn y ras a'r cyntaf drwy ddrws y WaterGuard, ble roedd Keith uwchben ei beint yn aros amdanon yn y snug, oedd yn fuddugol. Yr enillwyr o eiliadau'n unig (dim i'w wneud sylwer a maint eu gwybodaeth a'u deallusrwydd!) oedd Eluned Bush a Glyn Hughes. Roedd y tri tîm arall yn dynn wrth eu sodlau.

Noson ddifyr iawn oedd hon, ac er na fum i'n ffan mawr o'r Bae, wrth orfod cerdded, sylwi a chwilio, daethom ar draws sawl cilfach ddymunol dros ben fydd yn bendant yn fy nenu i yna'n amlach.

Chwilio am Noddwyr

Rwyf wedi fy newis allan o 400 o ymgeiswyr i gael hyfforddiant arbennig a chael cyfle i ennill gradd MA yn Los Angeles, yr UCLA, ar gynhyrchu a chyfarwyddo ffilm. Rwy'n gobeithio mynd yn yr Hydref, ond mae angen i mi ddod o hyd i nawdd a chefnogaeth ariannol. Rwy'n ymchwilio ar hyn o bryd i ysgoloriaethau a noddwyr. Cefais fy magu ym Mhenfro ac yn Iwerddon, ac rwyf wedi ennill fy ngradd o goleg ffilm arbennig yn Ne Affrica. Ers dwy flynedd, rwy'n byw yng Nghaerdydd. Yn y cyfamser rwyf wedi bod yn gweithio ar *Torchwood*, wedi creu fideos ar gyfer carchar Pen-y-bont ac wedi gweithio ar ffilm i'r BBC. Rwyf wedi dechrau'r gwaith o addasu stori fer, ac rwy'n gobeithio cael y cyfle yn y dyfodol i'w ffilmio nol yng Nghymru.

Ar ôl cyflawni fy MA, rwy'n bwriadu dod nôl i Gymru i weithio ar ffilm yn arbennig.

Rwy'n chwilio am gymorth i gyflawni hyn. Os hoffech fy noddi, neu os hoffech ragor o wybodaeth ar sut y medwrch fy helpu, cysylltwch â mi: brynachday@hotmail.com

Llawer o ddiolch,
Brynach Day

Ysgol Pwll Coch

Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau mawr i dîm cwis llyfrau blwyddyn 3 a 4 am ddod yn 3ydd yn Rownd Genedlaethol y Cwis Llyfrau a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar! Roedd 18 tîm yn cystadlu yn y Rownd Derfynol a phob un yn cynrychioli eu sir, a ni wrth gwrs yn cynrychioli sir Caerdydd. Roedd ambell i ysgol yno yn hen law ar gyrraedd y rownd derfynol ond hwn oedd y tro cyntaf i ni gyrraedd y rownd derfynol. Aethom â llond bws o gefnogwyr a rhieni i Aberystwyth a phawb wedi mwynhau'r achlysur cyffrous. Yn gyntaf bu rhaid i'r tîm drafod y llyfr 'Meini Mawr Cymru' gan Myrddin ap Dafydd. Wedyn aethant ymlaen i gyflwyno'r llyfr 'Cerddi'r Cof' gan Mererid Hopwood. Hoffwn ddiolch i Mrs Gillian Pike a Mrs Linda Owen Hicks am eu hyfforddi.

Y tîm: Thomas Hayes, Deio Hughes, Carys Jones, Non McCarthy, Mia Morgan, Rhys Morris, Emily Pemberton a Saffron Walters.



Y faner werdd!

Rydym wrth ein bodd i gyhoeddi ar ôl blynyddoedd o waith caled, ein bod wedi llwyddo i ennill baner werdd ysgolion eco! Mae'r wobwr yn un anrhydeddus iawn ac yn hollol haeddiannol gan ein bod mor eco gyfeillgar yma ym Mhwl Coch.

Mae'n systemau ailgylchu, gwrteithio a'r holl weithgareddau am yr amgylchedd wedi plesio'r aseswyr yn fawr iawn. Hoffem ddiolch i bawb ym Mhwl Coch am eu holl waith caled ond yn enwedig i Miss Helen Jones am gyflynu'r holl waith amgylcheddol. Edrychwn ymlaen at allu chwifio'r faner uwchben ein hysgol yn fuan!

Si-lwli

Mae Meithrinfa Si-lwli yn chwilio am Gofalwyr Meithrin...

Meithrinfa dydd yng Nghaerdydd (Eglwys Newydd a Treganna) sydd yn gofalu am plant bach o 6 mis oed i 4 mlwydd trwy'r gyfwrng y Gymraeg...

Cyflwgau deniadol £12,000-£14,000 (dibynnu ar profiad a chymwysterau).

Oriau llawn amser (40awr) a rhan amser (30 awr) ar gael.

28 diwrnod o wyliau y flwyddyn yn cynnwys wythnos Nadolig a gwyliau banc.

Cyfleoedd hyfforddiant a chefnogaeth ar gael i ddatblygu gyrfa a gwybodaeth gofal plant.

Am fwy o wybodaeth ffoniwch Theresa neu Meinir ar 02920 626720 neu anfonwch ceisiadau a C.V i: Meithrinfa Si-lwli, 24 Park Road, Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 7BQ neu nia@silwli.eclipse.co.uk



Dyddiad cau: 23/07/2009



www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Cynlluniau Gofal Gwyliau'r Haf

Fe fydd 3 Cynllun Gofal ar agor dros yr haf ar y dyddiadau isod.

Ysgol Treganna: Ar agor am 5 wythnos Gorffennaf 20 – Awst 21

Ysgol Melin Gruffydd: Ar agor am 5 wythnos Gorffennaf 20 - Awst 21

Ysgol y Berllan Deg: Ar agor am bythefnos Gorffennaf 20 – Gorffennaf 31

Fe fydd llu o weithgareddau difyr o chwaraeon a chelf a chreffft i deithiau a choginio wedi'u trefnu. Rhaid cofrestru o flaen llaw, am wybodaeth cysylltwch â Siwan – siwan@mentercaerdydd.org

Tafwyl

Hoffai Menter Caerdydd ddiolch i bawb, ein partneriaid ac yn enwedig y noddwyr a gyfrannodd i sicrhau llwyddiant Tafwyl unwaith eto eleni – yr Ŵyl orau eto!

Dinamo, S4/C, Y Mochyn Du,
Miri Mawr, Cyngor Caerdydd,
Prifysgol Caerdydd.

Cynllun haf

haf

am ddim!

cwrs ffilm
27+ 28 Gorffennaf 0930 - 1630

canwio
27 Gorffennaf 0930 - 1400

gweithdy sioe gerdd
29 Gorffennaf 1000 - 1600

beicio mynydd
29 Gorffennaf 0930 - 1630

recordio can
30 + 31 Gorffennaf 1000 - 1600

syrrffio
31 Gorffennaf 0845 - 1630

I gofrestru: www.caerdydd.gov.uk/dysguhaf | 029 20872887

dyddiad cau Dydd Gwener 10 Gorffennaf 2009

am wybodaeth pellach:
chwaraeon: aledw@urdd.org
celfyddydol: haled3@mentercaerdydd.org

tafwyl



Calan agorodd Ffair Tafwyl yn y Mochyn Du eleni.



Cynulleidfa fawr yn mwynhau Rachael a Gareth o CYW!



Rhai o ferched SiLwli yn paentio wynebaw yn y Ffair



Doli o'r rhaglen boblogaidd 'Gorsaf Hud' fuodd yn canu a darllen stori i'r plant yn Miri Meithrin Café Junior.



Daniel Glyn oedd yr MC yn Noson Gomedï'r Fwch Goch.



Igi, Tigi, Bip a Bop yn yr Wyl Feithrin yn Nghanolfan Hamdden y Gorllewin



Taith Beics i deuluoedd i Gastell Coch

Lansio Straeon Digidol



Rhai o gyfrannwyr y prosiect Straeon Digidol – Sirajul Islam, Lisa Jarman, Huw Onllwyn Jones, Mari Price a Daniel Glyn

Gyda chefnogaeth gan gronfa'r Loteri, mae Swyddog Treftadaeth Menter Caerdydd, Heledd Wyn, wedi bod yn gweithio ar hanesion llafar. Mae pob cyfrannwr, sy'n cynnwys Daniel Glyn a Mererid Hopwood yn ogystal â thriogion eraill, yn son am eu defnydd personol o'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ac hefyd pwysigrwydd yr iaith drwy eu llygaid eu hun a'u profiadau o gael eu magu yng Nghaerdydd.

Lansiwyd y Straeon yn ystod Tafwyl yn Oriol 1 Sain Ffagan ar 16eg o Fehefin. Mae cyfle i weld y straeon digidol ar wefan Menter Caerdydd: www.mentercaerdydd.org




Panel Cwllwm Busnes Caerdydd Tafwyl – Eryl Williams, Eleri Sion, John Evans ac Arthur Emyr



Rhai o blant lleiaf Clwb Nofio Menter Caerdydd / Urdd yn ennill tystysgrifau nofio ddiwedd y tymor. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!

CROESAIR Rhif 94 gan Rhian Williams

Atebion i:
22, Heol Cae Rhys,
Rhiwbeina, Caerdydd.
CF14 6AN
i gyrraedd erbyn
20 Gorffennaf 2009.



Ar Draws

1. Mae derbyneb Al a Bet wedi rhwygo (5)
2. Lled dryw druan ag arogl afiach (6)
3. '____ _' y cenhedloedd cynnar Anheddau bychain a neuaddau mawr (Waldo) (4,1,8)
4. 'A maddau i ni ein ____' (Mathew) (8)
5. Cael partner y rhaw mewn rhaca i bawb (4)

12 Gŵr yn dal cyfer yw hwn (6)

13 Cofleidio a nesau o amgylch William (6)

16. Traeth a tho pur (4)

18. 'Mae tywyll anial nos, ____ o bob rhyw.

Holl ofnau'r bedd, pob meddwl gwan
Yn ffoi o'r fan bo 'Nuw (W.W) (8)

21. 'Dwed dy fod yn eiddo imi

____ eglur clir' (W.W) (4,9)

22. Un sy'n canlyn yn dwli'r cynnwrf (7)

23. A ddaw lle i agoriad? (5)

Atebion Cwestiynau Cymdeithas Carnhuanawc (tudalen 5)

1884; WRTH DROED CERFLUN SCOTT, MAX BOYCE, CLORIAN, JOHN BACHELOR, JOHN (ARDALYDD BUTE)

I Lawr

1. Tocyn a marc cywir i Edward bach (5)

2. Y cwrw yw'r lle i awdl wedi'i ysgrifennu mewn brys (8)

3. Un dysgedig yn gweld gorffennol duw'r daran (6)

4. Hyderus yw braw y we! (4)

5. 'Haleliwia! Haleliwia!

Aeth i'r ____ yn ein lle (Anad) (5)

6. Adfywio y bae drud efallai (7)

8. Un o'r fyddin am ddial gwir ar yn ail (5)

11. '____ dy dad a'th fam fel yr estynnir dy ddyddiau ar y ddear' (Exodus) (8)

12. Bodloni ar dy heddwch (7)

14. Mae sengl y noson yn cynnwys cynghanedd (5)

17. Un i lawer newid (5)

19. 'Mewn ffiol ddrud o risial pur

Yn ____ wych y da ei ffordd' IDH (5)

20. Mas mewn deall annoeth (4)

Atebion Croesair Rhif 93

Ar draws: 1 Sgio. 8 Disgleirio. 9 Haul.

10 Esgusodi. 12 Lleuad. 13 Ffug. 16

Coluro. 17 Emynau. 18 Nam. 21 Gwawr.

22 Synhwyro. 24 Boda. 25 Atgyweirio. 26

Drum.

I Lawr: 2 Gwaredodd dŷ. 3 Odliaur. 4

Agosau. 5 Mefus. 6 Crio. 7 Ffoli. 11

Dylanwadu. 13 Ffon. 14 Gem. 15

Cydwbybod. 19 Afraid. 20 Gwywo. 22

Siar. 23 Nage.

Derbyniwyd 15 ymgais a 13 ohonynt yn

hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfr i Elen

Lewis, Radur.

Newyddion o'r Eglwys

Eglwys Minny Street

"y peth gwerthfawr" – dathlu 125 mlynedd yn Minny Street

O Wyl y Sulgwyn hyd ddiwedd mis Mehefin cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn Minny Street i ddathlu 125 mlynedd ers sefydlu'r achos. Cyfle i'r eglwys ddiolch a dathlu'r hyn a fu, a'r hyn ydym, oedd yr Oedfa Gymun Foreol gan ganolbwyntio ar ddau lun - ieuencid Minny Street yn 1901 a'r criw cyfatebol yn 2009! Gyda'r hwyr daeth cyfeillion o eglwys Cymraeg y ddinas atom. Cafwyd oedfa fendithiol iawn gyda'r Gweinidog yn ein tywys i Timotheus II a chanolbwyntio ar "y peth gwerthfawr". Fe'n hatgoffwyd nad bwrw trem yn ôl yw unig ddiben dathlu ond ein hysbrydoli i gynnal y tân i'r dyfodol. Cawsom ein hannog i gynnig ein hunain i'r gwaith o ddiogelu "y peth gwerthfawr a ymddiriedwyd i'n gofal".

Bu edrych ymlaen ers tipyn at ddyfodiad Cyfrol y Dathlu, ac ar nos Lun gyntaf mis Mehefin gwelwyd lansio *Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory*. Mewn ychydig dros gant o dudalennau sy'n cynnwys dros 100 o luniau hen a chyfredol ceir hanes yr eglwys. Mawr yw ein diolch i'r tri golygydd, John Gilbert Evans, Glyn E. Jones ac Iolo Walters ynghyd â Gwasg Gomer am sicrhau fod y gyfrol wedi dod i law mewn pryd! Yn ystod y lansiad, cyflwynwyd copi cyntaf y gyfrol i'r Parchedig Owain Llŷr Evans gan Ysgrifennydd yr Eglwys, Bethan Jones, a chyflwynwyd copiau gan Owain Llŷr i gyn-weinidogion yr Eglwys ac i Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, y Parchedig Ddr Geraint Tudur. Ein Gweinidog wnaeth ein harwain o amgylch y capel yn ystod Cwrdd Gwedd'i'r dathlu y noson ganlynl; canolbwyntio ar wahanol agweddau o'n haddoliad wrth symud o gefn y capel i'r blaen, ac i'r sêd fawr. Drwy gydol y mis gwelwyd arddangosfa o luniau a chreiriau hen a chyfredol yn y Ffestri. Diolchwn i'r gwirfoddolwyr wnaeth dreulio oriau lawer yn hel a didoli'r cyfan, eu gosod allan a'u labeli fel bod pawb yn medru mwynhau eu gweld, eu darllen a hel atgofion. Cafwyd hefyd dau gyflwyniad gan yr Ysgol Sul. 'Cloc' oedd canolbwynt cyflwyniad y plantos - ac fe'n harweiniwyd o un Arglwydd i'r deuddeg disgybl. Cyflwynwyd rhodd o blac pres ganddynt i'w osod yn y pulpod gyda'r geiriau "Syr, fe hoffem weld Iesu". Bu'r plant wrthi'n edrych yn ôl dros hanes a



gweinidogaeth wyth gweinidog Minny Street. Neges waelodol yr wyth oedd mai "cariad yw Duw". Cyflwynwyd rhodd i'r eglwys ganddynt hwythau hefyd - plac i'w osod ar ddrws y capel gyda chyfieithiad Elfed ap Nefydd Roberts o weddi a welir yn Eglwys Sant Steffan, Walbrook, Llundain.

Yn ystod y mis cafwyd nifer o oedfaon pregethu pwrpasol a heriol gan ein Gweinidog. Bu Clwb yr Ieuencid yn treulio amser yn edrych ar yr arddangosfa cyn cymryd rhan mewn cwis, trefnwyd taith gerdded arbennig a chawsom gyfle, dan arweiniad Cylch Madagascâr, i ddathlu ein gefeillio ag Eglwys y Tranovato yn yr Ynys Fawr. Dros gyfnod y dathlu, harddwyd blaen y capel gan faner fawr oedd yn glytwaith o enwau a fu, ac y sydd, â chysylltiad â Minny Street a'r rheini wedi'u gosod at ei gilydd gan Lona Evans i amlinellu croes. Gydol y mis canu emynau a thonau o waith rhai a fu, neu sydd, yn aelodau yn ein mysg y buom - rhai ohonynt yng Nghaneuon Ffydd a Chaniedydd yr Ifanc, ond eraill yn cael eu canu gan gynulleidfa am y tro cyntaf. Yn ei mysg roedd emyn newydd y Parchedig Huw Ethall a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer ein dathlu. Fe fu hefyd yn torri Cacen y Dathlu. Diolchwn yn ddiffuant iawn i Owain Llŷr am ei holl arweiniad, ei waith a'i frwdfrydedd diysgog dros holl baratoadau'r dathlu.

Logo newydd

Wrth i ni ddathlu ein pen blwydd yn 125 oed manteisiwyd ar y cyfle i ddechrau defnyddio logo newydd a baratowyd ar ein cyfer gyda chymorth Cwmni Dylunio Elfen ac a fabwysiadwyd mewn Cwrdd Eglwys ym mis Ebrill. Dynoda'r cylch rywbeth sydd heb na dechrau na diwedd, a dyma wirionedd gwaelodol ein ffydd. Defnyddir llythrennau bach gan hepgor "M" fawr er mwyn cadarnhau nad lleoliad nac adeilad ydym.

Oddi mewn i'r cylch gwelir croes ein Harglwydd. Gosodwyd y groes yn y fath fodd o fewn y cylch er mwyn awgrymu ffordd; nid digon yw bod yn bobl y 'tŷ' - ein braint yw bod yn bobl y 'ffordd'. Ffordd a chroesffordd.

Salem Treganna

Bedyddiadau

Bedyddiwyd Cadi, merch Sioned a Prys, a chwaer i Lewys ar yr 21ain o Fehefin. Ddechrau Mehefin, bedyddiwyd Joseff, mab i Dafydd a Rhiannydd a brawd i Megan. Pob dymuniad da ar yr achlysur arbennig hwn i Cadi a Joseff a'u teuluoedd.

Derbyn Aelodau Newydd

Rydym yn falch o allu sôn ein bod wedi derbyn aelodau newydd yn ystod y mis. Croeso mawr i'n plith fel aelodau i Ann a Dudley Morgan, Rhian Jardine a Sion Roberts.

Gemau Criced

Rydym wedi cael llawer o hwyl yn ystod y gemau diwethaf, er bod y tywydd wedi bod yn rhywstr hefyd. Mae gennym gemau wedi eu trefnu hyd ganol Gorffennaf.

Y Parch. Dafydd a Brenda Owen

Llongyfarchiadau mawr i chi am ddathlu eich priodas aur ar y 24ain o Fehefin.

Clwb Brecwast

Cyfarfu'r clwb brecwast ddwywaith yn ystod y mis yn Ystafell Edwin.

Pwll Coch

Daeth blwyddyn 2 Pwll Coch i ymweld â Salem. Roedd y plant yn llawn brwdfrydedd a chwilfrydedd.

Casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol

Casglwyd £349 wrth gasglu o ddrws i ddrws ar gyfer apêl Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb oedd wedi bod mor barod i helpu, roedd yn werth chweil.

Byddwn yn meddwl am bobl ifanc Salem sy'n sefyll arholiadau pwysig eleni dros yr haf - dymuniadau gorau i chi.

NEWID AMSER YR OFFEREN GYMRAEG

Ers bron i ddeugain mlynedd mae Offeren Gatholig Gymraeg wedi cael ei chynnal yn wythnosol yn ardal Caerdydd. Yr offeiriad a arferai ei dathlu ydy'r dyn sydd bellach yn Esgob Wrecsam, sef Edwin Regan. Wedyn bu'r Canon Ieuan Wyn Jones wrthi nes i'w iechyd dorri y llynedd.

Bellach y Tad Tony Hodges sy'n cynnal yr Offeren Gymraeg, a hynny yn ei eglwys yn Llanedeyrn, Eglwys y Sant lleol, Philip Evans.

Cafodd y Tad Hodges ei urddo yn yr Orsedd yn Eisteddfod Caerdydd y llynedd, ac mae wedi graddio yn y Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cynhelir y gwasanaeth am 9.30 bob bore Sul ac mae croeso i bawb.



Tabernacl, Caerdydd

Priodas

Llongyfarchiadau i Siwan Kemp ac Owen Sloman ar eu priodas yn y Tabernacl, brynhawn Sadwrn Mehefin 13eg. Pob bendith i'r pâr ifanc.

Chwaraewraig hoci cenedlaethol

Llongyfarchiadau i Hannah Sennit a gafodd ei dewis i chwarae dros dîm hoci merched Cymru (dan 16 oed). Teithiodd i Glasgow dros y Pasg a chwaraeodd mewn tair gem yn erbyn yr Alban.

Pryd 'Dewch a Rhannwch'

Cafwyd cryn hwyl wrth i ni fwynhau cymdeithas pryd bwyd yn y festri uchaf yn ddiweddar wedi'r oedfa foreol. Dyma'r eildro i'r math yma o ginio gael ei drefnu. Cafodd Catrin Lloyd a Nicola Baker gryn hwyl yn cydlynu'r cyfan.

Ymweliad ag Eglwys y Crwys

Aeth nifer dda o blith aelodau'r eglwys ar ein hymweliad blynyddol â Ffordd Richmond er mwyn cefnogi oedfa bregethu'r eglwys Bresbyteraidd. Eu cennad gwadd eleni oedd y Parchg. D.Ben Rees, Lerpwl, ac yr oedd yn ei hwyliau gorau.

Ffair Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb a gefnogodd y ffair lwyddiannus hon. Roedd hi'n braf gweld y festri yn llawn o fwrwm cefnogwyr yr achos dyngarol hwn, gyda chyfeillion o'r holl eglwysi Cymraeg yn cydweithio er mwyn sicrhau'r llwyddiant. Roedd yn hyfryd medru croesawu ymwelwyr atom a soniodd am bwysigrwydd ac effeithiolrwydd rhaglen waith Cymorth Cristnogol mewn gwledydd tramor.

Bore Coffi

Diolch i Eirlys a Gwyn Jones am eu croeso yn Llanbedr y Fro fis Mai. Ym mis Mehefin, ymwelwyd â gardd Eirlys a Caerwyn Roderick a diolch iddyn nhw am yr un croeso.

Cwrs Alfa

Mae'r cwrs ym mynd yn ei flaen yn hwylus a gobeithiwn drefnu cyfres debyg yn yr Hydref, y tu allan i ganol y dref, boed ar aelwyd rhywun neu efallai mewn tafarn neu dŷ bwyta.

Cymorth Rwmania

Diolch i bawb a estynnodd rodd ar gyfer ei drosglwyddo i blant Rwmania. Mae'r cymorth yma yn gwneud gwahaniaeth amlwg yno, ac mae'r sawl sy'n trefnu, sef Ann ac Alan Penrose, yn

Eglwys Dewi Sant

Ysgol Undydd

Braf oedd cael croesawu yr Esgob Saunders a Cynthia Davies i'n plith i'n harwain yn yr Ysgol Undydd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin. Cafodd grŵp o ffyddloniaid yr eglwys a'r ficer, Y Parchedig Hywel J. Davies, y fraint o fyfyrion dros nifer penodedig ac amrywiol o'r salmau yn *Salmau Cân Newydd*, Y Parchedig Gwynn ap Gwilym. Drwy ddadansoddiad ysgolheigaidd yr Esgob Saunders ynghyd â chopi o'r *Beibl Cymraeg Newydd* (1988) wrth ein penelin, edmygem yn fwyfwy gampwaith yr emynydd gan iddo lwyddo i lynu mor agos at eirfa gyfoethog y Beibl.

Cafwyd cyfle hefyd i ganu rhai o'r salmau-cân ar yr emyn-donau cyfarwydd a nodir ar eu cyfer yn y gyfrol.

Bu'n ddiwrnod hynod o fuddiol a bendithiol, ac yn wir, yn ysgogiad i ystyried cynnal Ysgol Undydd yn flynyddol.

Ar daith

Yn ystod y ddau weinyddiad o'r Cymun Bendigaid ar fore Sul y Drindod, bu'n gyfle i groesawu Y Parchedig Bill Roberts, Rheithor Eglwys Esgobaethol St. Gregor, Deerfield, Illinois, i'n plith. Roedd yn cychwyn ar gyfnod Sabothol o dri mis yn archwilio tri o ddiwylliannau Cristnogol: ymchwilio i statws yr iaith Gymraeg ym mywyd a chenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru; rhai nodweddion o'r Eglwys yn Lloegr, a'r Eglwys Anglicanaidd ym Madagascar.

Bu'n derbyn gwersi Cymraeg dros nifer o flynyddoedd a daeth cyfle iddo ymarfer yr iaith wrth sgwrsio â'r cymunwyr dros banded o de ar ôl y gwasanaeth. Syndod o'r mwyaf iddo, serch hynny, oedd darganfod bod un o ffyddloniaid Dewi Sant, sef Tim Saunders, yn rhugl yn y Gernyweg ac yn barddoni yn yr iaith honno yn ogystal â'r Gymraeg.

gwerthfawrogi cefnogaeth aelodau'r Tabernacl.

Atgyweirio a Chronfa'r Organ

Mae'r newyddion a ddaw oddi wrth y cwmni yn nodi eu bod yn gobeithio gweld yr organ yn ôl yn ei le erbyn mis Hydref. Mae'r casgliadau yn mynd rhagddynt, ac mae'r pwyllgorau sy'n hyrwyddo defnydd y capel i gynnal digwyddiadau cerddorol a chasglu arian at y gronfa yn cael cryn lwyddiant.

Mewn Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Carys Hall Evans y Barri, a fu farw ar yr 31ain o Fai. Bu'r angladd yng nghapel y Tabernacl y Barri ar y 10fed o Fehefin.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Bronwen James, Trecelyn, a fu farw yn 80 oed ar 28ain o Fai. Bwriedir cynnal gwasanaeth coffa cyn diwedd yr haf. Bu'n gefnogwraig frwd i addysg Gymraeg yn sir Fynwy.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Barchedig Ifan R. Williams a fu farw'n 84 oed yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Cafwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ar y 6ed o Fehefin.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Tom Davies, Rhaeadr Gwy ond gynt o Landaf, a fu farw'n 84 oed yn Rhuthun ar y 14eg o Fehefin. Cyn ymddeol bu'n Bennaeth Adran Chwaraeon Radio'r BBC a bu'n cyfrannu at golofn chwaraeon y Dinesydd am flynyddoedd. Cynhaliwyd ei angladd yn Llanidloes ar y 23ain o Fehefin.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Gethin Meirion Jones, Rhiwbeina, a fu farw'n dawel yn ysbyty'r Mynydd Bychan ar yr 11eg o Fehefin. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Beulah, Rhiwbeina ar 24ain o Fehefin.

Colli Nans Jones

Yn 94 oed bu farw Nans Jones, Pen y lan ond gynt o Dreborrh ger Bangor, ar y 18fed o Fai. Rhoddodd oes o wasanaeth i Blaid Cymru. Bu'r angladd yng Nghapel y Crwys ar y 1af o Fehefin.

Bethel, Rhiwbeina

Rydym yn dymuno adferiad buan i Siân, merch Myfanwy a Tony Clark, Rhiwbeina ac i Alaw, wyres Mr Islwyn Griffith. Mae Alaw yn cael triniaeth yn Ysbyty Rookwood.

Llongyfarchiadau mawr i Angharad Davies, Rhiwbeina, ar gael gradd M.A. mewn pensaernïaeth. Bu'n fyfyrwraig yn Ysgol Bensaernïaeth Coleg y Brifysgol, Caerdydd, a dymunir pob llwyddiant iddi hi yn y dyfodol.

Ebeneser, Heol Siarl

Hwngari

Yn ystod y cwrdd plant ar y Sul cyntaf o Fehefin buom fel eglwys yn dymuno'n dda i Catrin Pritchard. Y mae Catrin, sy'n wreiddiol o Ynys Môn ac yn fyfyrwraig yng ngholeg y Brifysgol Caerdydd, yn mynd am gyfnod o dair wythnos i Hwngari gyda chynllun *Mission Impossible* a drefnir gan CWM (Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang) ac Undeb yr Annibynwyr. Gwnaethom addewid fel eglwys i weddio'n ddyddiol drosti a chyflwynwyd sic o £100 yn rhodd i'w chynorthwyo gyda'r costau.

Logos Hope

Bu rhai o aelodau a phobl ifanc Ebeneser ar ymweliad a'r llong Logos Hope a ymwelodd â dociau Caerdydd o Fai 27 - 9 Mehefin. Llong mudiad cenhadol Cristnogol *Operation Mobilisation* yw hon sydd yn hwylio moroedd y byd gan rannu gwybodaeth, cymorth a gobaith. Yn ystod pythefnos ei arhosiad cynhaliwyd gweithgareddau i ferched, arweinyddion eglwysig, ieuencid ac oedfa Gymraeg o dan arweiniad Eglwys Efengylaidd Caerdydd. Am ragor o wybodaeth cliciwch ar www.logoshope.org

Cyngerdd

Ar fore Sul 7fed Mehefin cynhaliwyd cyngerdd gan blant yr ysgol Sul i godi arian tuag at ein hapêl am eleni. Apêl De Affrig - HIV Aids. Bu nifer wrthi'n canu unawdau, llefaru a chwarae offerynnau. Canodd côr a chafwyd un yn dawnsio disgo hefyd. Yn frith o dalentau mae brwdfrydedd a chyfraniad y plant ym mywyd a gweithgareddau'r eglwys yn llonni'r galon. Codwyd £107 drwy eu hymdrech clodwiw. Da iawn nhw wir am eu hymdrech tuag at waith yr elusen bwysig hon! Diolch i John Hayes am gyflwyno'r holl eitemau.

Te mefus

Ar brynhawn braf a chymylog am yn ail cynhaliwyd te mefus ym Maesglas, Dinas Powys. Daeth criw da ynghyd prynhawn Sadwrn 20fed Mehefin i fwynhau ambell i fowlen fach o fefus a hufen, cacennau di-ri a phaned dda o de neu goffi. Unwaith eto'r bwriad oedd codi arian tuag at yr elusen. Roedd y criw o blant a ddaeth i fwynhau wrth eu bodd yn rhedeg o gwmpas yr ardd ac fe'u plesiwyd yn fawr iawn pan estynnodd Anti Mair am yr hufen iâ o'r rhewgell. Codwyd swm teilwng o £610. Diolch o galon i Mair Evans, Eleri ac Arwel am agor eu cartref ar gyfer pnawn diddan mewn cwmni da.



Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd, ac yn arbennig i barti deulais yr ysgol am gyrraedd y llwyfan a chipio'r drydedd wobr.

Criced

Llongyfarchiadau mawr i dîm criced yr ysgol - pencampwyr cystadleuaeth ysgolion Caerdydd. Da iawn fechgyn! Llongyfarchiadau hefyd i dîm criced blwyddyn 4 am ennill cystadleuaeth criced yr Urdd!

Tafwyl

Fel rhan o ddathliadau Tafwyl bu côr o leisiau plant Blynyddoedd 1 a 2 yn canu yn y Mochyn Du ar brynhawn Sadwrn 13 Mehefin. Cafwyd amser hyfryd ac roeddent wedi perfformio ar eu gorau. Da iawn chi!

Capel y Crwys

Y Sacrament o Fedydd.

Ddydd Sul Mehefin 14eg cafwyd bedydd yn oedfa'r bore a chafodd y gynulleidfa'r fraint o weld ein Gweinidog yn derbyn Mari Anna, merch fach Mererid a Velios Athanasios i'n plith. Mae hi'n wyres i'r Parchedig Thomas a Gwen Roberts. Dymuna'r eglwys bob bendith iddynt.

Y Gymdeithas Ddrama

Dros gyfnod nosweithiau Mercher, Iau a Gwener Mehefin 24, 25 a'r 26ain, cyflwynwyd 'Problemau'r Gwely' gan Theatr y Crwys. Seiliwyd y cyflwyniad ar ddau gomedï, *Newid yn Chenj* gan William Owen ac *Ar yr Erchwyn*, addasiad gan Bob Roberts o *Bedside Manner* gan Frank Vickery. Y ddau gynhyrchydd oedd Robin Owen a Betsan Evans. Cafwyd tair noson o chwerthin iach a fwynhawyd gan bawb.

Oedfa ar y Dŵr

Ddydd Sul Mehefin 21ain cynhaliwyd oedfa'r bore ar yr Oleulung yn y Bae. Roedd y gwasanaeth yn cynnwys nifer o gyfraniadau gan yr aelodau cyn i'r Gweinidog ein harwain mewn myfyrdod ar y testun 'Myfi yw Goleuni'r Byd'. Yn dilyn cafwyd cyfle i gael ychydig o luniaeth ar fwrdd y llong yn ogystal â chymdeithasu.



Gŵyl Plant Morgannwg

Cafwyd diwrnod ardderchog o ddawnsio gwerin gan rai disgyblion o flynyddoedd 3 a 4 yng Ngŵyl Plant Morgannwg ar fore Sadwrn 13 Mehefin. Roedd yr haul yn tywynnu, edrychai'r plant yn hyfryd yn eu gwisgoedd a chafwyd llawer o hwyl. Dyma'r tro cyntaf i'r ysgol gymryd rhan yn yr Ŵyl a derbyniwyd tystysgrif a thlws. Edrychwn ymlaen at ddawnsio yno eto'r flwyddyn nesaf!

Gwersi hwylio

Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae plant blwyddyn 4 wedi mwynhau gwersi hwylio ar gronfa ddŵr Llanisien. Profiad bythgofiadwy mae'n siŵr!



Llinellau ffôn Cymraeg

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i

CYMORTH.COM

Calendr y Dinesydd

Sadwrn, 4 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Stondin yng Ngŵyl Rhiwbina.

Sul, 5 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Eilonwy Jones; Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah am 8.00pm.

Llun, 6 Gorffennaf

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y DINESYDD

yng Nghapel Bethel, Maesyderi, Rhiwbina, am 7.00pm.

Sadwrn, 11 Gorffennaf

Cylch Meithrin Cymraeg Rhiwbina: Twmpath Dawns a Swper i ddathlu 50fed pen blwydd y Cylch yn y 'Rec' yn Rhiwbina am 7.30pm. Tocynnau: £15. Manylion pellach: Sarah Barr (e-bost: sarahbarr3@supanet.com neu ffôn: 07928 649 737).

Iau, 10 Medi

Cyngor Eglwys Cymraeg Caerdydd. 'Cyflwyno gwaith Gweithwyr Cristnogol Ysgolion Cymraeg.' Siaradwraig: Gwen Emyr. Yng nghapel Ebeneser, Heol Siarl, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Llyfr y Flwyddyn 2009

Cynhaliwyd seremoni yng Nghaerdydd ar y 15fed o Fehefin yng Ngwesty Dewi Sant, Bae Caerdydd, i wobrwyo enillwyr Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru. Yr enillydd Cymraeg oedd yr awdur William Owen Roberts o'r Eglwys Newydd, a'i nofel *Petrograd*. Y beirniaid oedd Luned Emyr, Derec Llwyd Morgan a Gwyn Thomas. Derbyniodd sic o £10,000 yn wobrw. Gweinyddir y gystadlaeth gan yr Academi Gymreig a chyllidir y gystadlaeth gan Gyngor y Celfyddydau yng Nghymru.

Eisteddfod Powys - Eisteddfod i Ddysgwyr!

Mae llawer o gystadlaethau i ddysgwyr yn Eisteddfod Powys eleni. Ydych chi'n hoffi ysgrifennu? Ydych chi'n hoffi actio neu adrodd? Mae cystadlaethau i baw! Eisiau gwybod mwy? Oes diddordeb gennych chi? Dydy o ddim yn rhy hwyr! Ffoniwch ysgrifennydd yr Eisteddfod: 01938 580549.

Croeso i ddysgwyr o bob gallu.

Ysgol Pencae



Cân Actol

Llongyfarchiadau i aelodau'r Gân Actol a lwyddodd i dderbyn yr ail wobrw yng Nghanolfan y Mileniwm yn ystod Wythnos Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd. Cyflwynon nhw amrywiaeth o themâu am y chwedegau, o Tom Jones a Shirley Bassey i drychineb Aberfan a boddi Tryweryn.

Cwis y Ffordd Fawr

Llongyfarchiadau i aelodau Cwis y Ffordd Fawr a lwyddodd i gyrraedd y rownd derfynol yn ddiweddar. Roedd y cwestiynau'n rhai heriol a rhaid oedd canolbwyntio am gyfnodau hir!



Wythnos y Groes Goch

Codon ni ymwybyddiaeth o elusen y Groes Goch ar ddechrau Mai trwy wahanol weithgareddau. Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wers Cymorth Cyntaf gan Wayne Morgan, gwers ddefnyddiol bob tro. Diolch hefyd i Mrs Jones, mam Siân Blwyddyn 5, am rannu gwybodaeth gyda'r plant am yr hyn mae'r elusen yn ei gyflawni ledled y byd. Gwisgodd pob disgybl ddilledyn coch i derfynu'r wythnos a llwyddwyd i godi £200 tuag at yr elusen bwysig hon.

Dathlu can mlwyddiant y Pasiant yng Nghastell Caerdydd

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 y cyfle i actio golygfa Ifor Bach fel rhan o ddathliadau can mlwyddiant y Pasiant. Perfformion nhw ar lwyfan yn yr awyr agored gyda chynulleidfau fawr yn eu gwyllo a'u cymeradwyo. Derbyniodd y plant glod uchel am eu perfformiad!

Cyfnod mamolaeth

Pob dymuniad da i Bethan Reynolds, athrawes dosbarth 4, sydd yn ein gadael ar gyfnod mamolaeth. Croesawn Kerry Campbell yn gynnes i'r ysgol yn ei lle.

Newyddion

Ethol Swyddogion yn Rhiwbeina

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina nos Lun y 15fed o Fehefin yn festri Capel Bethany, Heol Llanisien Fach. Etholwyd Falmai Griffiths yn Gadeirydd, Delyth Sutton yn Ysgrifennydd a Gwyneth Jennings yn Drysorydd. Diolchwyd i Ann Brain am ei gwaith clodwiw fel Ysgrifennydd ers chwe blynedd. Yna, cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol gan Dr Rosina Davies am ei gwaith yn Hospis Tŷ Olwen, Abertawe.

Plac er cof am Dr Iorwerth Peate

Mae Cymdeithas Ddinesig Rhiwbeina yn y broses o baratoi plac ar gyfer wal y tŷ yn Lôn y Dail, Rhiwbeina, lle bu Dr Iorwerth Peate yn byw am nifer o flynyddoedd cyn iddo symud i fyw i Sain Ffagan, wedi iddo gael ei apwyntio yn Guradur yr Amgueddfa Werin yno.

Arglwydd Faer Newydd Caerdydd

Olynydd yr Arglwydd Faer presennol, sef Kate Lloyd, gynt o Langadog, yw'r Cynghorydd Brian Griffiths sy'n cynrychioli'r Eglwys Newydd a Thongwynlais ar y Cyngor. Brodor o Dongwynlais yw'r Arglwydd Faer newydd ac mae e wedi bod yn ymhel a gwleidyddiaeth leol ers hanner can mlynedd. Ei elusen ar gyfer ei flwyddyn yn y swydd fydd Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru.

Ysgol Gyfun Glantaf

PRIF SWYDDOGION 2009 – 10

Llongyfarchiadau !

Prif Fachgen: Tom Kearns

Prif Ferch: Sioned Treharne

Dirprwy Brif Fachgen: Gareth Robinson

Dirprwy Brif Ferch: Bethan Phillips

Taith India, Gorffennaf 2009

Ar y 4ydd o Orffennaf, bydd 9 disgybl a Mr Andrew Walpole yn mynd ar daith anturus i Ogledd India. Bwriad y daith yw cerddedd mynyddoedd yr Himalayas gan obeithio cyrraedd copa mynydd Stok Kangri, sydd 6,121m o uchder. Bydd y grŵp yn cynnal gwersi mewn ysgol, rafftio lawr afon Indus, ymweld â dinas Delhi a'r Taj Mahal. Mae'r grŵp eisoes wedi bod yn paratoi tuag at y daith, sy'n cyd-fynd â Gwobr Aur Dug Caeredin, drwy gymryd rhan yn her Tri Chopa Cymru - Cadair Idris, yr Wyddfa a Phen-y-Fan - roedd yn ymarfer a pharatoad gwych at yr her sy'n eu hwynebu yn yr Himalayas.

Llongyfarchiadau i Amy McGlinchy Bl. 13 am gael ei dewis i fod yn rhan o gynhyrchiad Sweeney Todd - dyma adroddiad ganddi.

CWMNI OPERA CENEDLAETHOL IEUENCTID CYMRU [16-25 mlwydd oed] 'SWEENEY TODD' – Sondheim

Mae'n bleser pur bod yn aelod o Gwmni Opera Ieuencid Cymru eleni ac mae'n fraint bod yn rhan o gwmi mor egniol. Credaf fy mod yn lwcus iawn o gael y cyfle i ehangu gorwelion, dysgu technegau lleisiol ac ymarferion newydd a ffres, a bod yn rhan o dim mor frwdfrydig a thalentog, gan weithio gyda Chyfarwyddwr Cerdd a Chyfarwyddwr Symud a Dawns proffesiynol am y tro cyntaf. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio'n ddiwyd tuag at berfformiad arbennig o *Sweeney Todd* fydd yn cael ei lwyfannu yn Theatr Weston yng Nghanolfan y Mileniwm ar Orffennaf 10fed-13eg. Rydym yn dod at ein gilydd i ymarfer tua 2 benwythnos y mis, a bu wythnos gyfan o ymarfer yn ystod gwyliau'r Pasg er mwyn blocio'r sioe a dysgu'r gerddoriaeth ei hun! Mae sesiwn ymarfer fawr o'n blaenau hefyd ddiwedd Mehefin a dechrau Gorffennaf cyn y bydd y perfformiad

cyntaf yn cael ei lwyfannu. Cyffrous iawn!

Cast o ryw 40 ohonom sydd, a heblaw amdanaf fi, mae tri arall â chysylltiad amlwg â Glantaf hefyd yn rhan o'r criw. Mae Steffan Jones, cyn-ddisgybl sydd ar hyn o bryd yn astudio llais yng Ngholeg Cerdd Frenhinol Llundain, yn chwarae rhan Judge Turpin, ei chwaer Marged (sydd hefyd yn astudio'r soddgrwth yn yr un Coleg Cerdd Frenhinol) yn arweinydd y gelli yn y Gerddorfa, ac mae Dafydd Weeks, sydd yn dilyn cwrs Astudiaethau ffilm erbyn hyn, yn rhan annatod o'r corws. Rwyf fi a phawb yn edrych ymlaen yn fawr at y 5 perfformiad. Gobeithio y medrwyd chithau ymuno â ni, tocynnau ar werth yn awr drwy law'r Ganolfan. Dewch yn llu i glywed hynt a helynt y llofrudd o farbw!

Bwyd a Ffitrwydd yng Nglantaf

Fel rhan o gynlluniau gweithredu 'Ysgol Iach' rydym wedi bod yn brysur yn hybu 'Bwyd a Ffitrwydd' yng Nglantaf eleni. Ym mis Mawrth a Mehefin eleni trefnwyd diwrnodau llwyddiannus 'Bwyd a Ffitrwydd' i ddisgyblion blwyddyn 6 fel rhan o Gyswllt Cynradd a gweithgaredd P.E.S.S. Trefnwyd y diwrnod gan Mr Keri Evans. Yn wir, roedd y diwrnod yn arloesol, gan ein bod wedi defnyddio ein disgyblion fel mentoriaid i hybu sgiliau ffitrwydd a choginio.

Cafodd plant Ysgol y Wern, Melin Gruffydd, Mynydd Bychan, Bro Eirwg a Mynydd Bychan gyfle gwerthfawr i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau chwaraeon megis pêl-fasged a *dodge-ball*. Arweiniwyd y sesiynau chwaraeon gan yr adran chwaraeon - Brenda Goodfellow, Jan Robinson, Aled Davies a thîm o'r chweched sydd yn astudio Arweinyddiaeth Chwaraeon.

Bu cynnwrf mawr yn y gegin Arlwyo wrth i blant blwyddyn 6 gael cyfle i gael gwers goginio o dan arweiniad Mrs Nia Evans a'i thîm o fentoriaid coginio Blwyddyn 10 Arlwyo/O.C.N. Gwahoddwyd y disgyblion yma hefyd i fentora 40 o blant ysgolion Elai wythnos ynghynt fel rhan o weithgareddau *Cardiff Health Alliance*. Bu'r diwrnod yma yn rhan o ymgyrchoedd y cynulliad 'Her Iechyd Cymru' i oresgyn gordewdra.

Erbyn diwedd y flwyddyn yma fe fydd disgyblion Glantaf wedi mentora 250 o blant y ddinas i goginio. Tipyn o gamp! Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled.



Enillwyr Cwpan Rygbi Ysgolion Cymru dan 16 oed.



Sgiliau Coginio

Artist yn ymgartrefu yng Nghaerdydd

Mae'r artist hynod dalentog, Bethan Clwyd, sy'n wreiddiol o Aberystwyth, bellach wedi ymgartrefu yn ardal parc Fictoria o'r ddinas.

Cyflawnodd Bethan gwrs sylfaenol Celf yng Nghaerdydd cyn mynychu coleg Kingston, Llundain. Wedi hynny, gweithiodd yn y byd ffilm a theledu'n paentio setiau am bedair blynedd. Ers hynny, mae wedi symud nôl i Gymru ac i Gaerdydd, ac ar hyn o bryd mae ganddi arddangosfeydd o'i phaentiadau lliwgar yn Toko ac Oriol y Bont, Aberystwyth, ac yn Tonnau, Pwllheli. Mae ganddi ddawn arbennig i ddarlunio tirwedd a strydoedd Cymru mewn modd unigryw iawn.

Os oes gennych ddi-ddordeb, croeso i chi gysylltu â Bethan drwy'r wefan: www.bethanclwyd.com.



Yr artist Bethan Clwyd, ac un o'i phaentiadau o strydoedd Tredegar



safle swyddi

Hysbysfwrdd Rhyngweithiol Swyddi Cymraeg

www.safleswyddi.com